



➤ Darganfod mwy am gyfyngiadau lleol y coronafeirws

Dilynwch y cyngor ar gyfer y coronafeirws (COVID-19)

Cuddio ✕

Hafan > **Coronafeirws (COVID-19)** > **Addysg a gofal plant: coronafeirws** > **Addysg bellach ac uwch: coronafeirws** > Addysg bellach: coronafeirws

CANLLAWIAU

Addysg bellach: coronafeirws

Newidiadau i ddysgu, arholiadau, a mynd i'r ysgol a'r coleg yn ystod pandemig y coronafeirws.

Rhan o:
[Addysg bellach ac uwch: coronafeirws](#)
[Cyllid i fyfyrwr a Ysgolion: coronafeirws](#)

Cyhoeddwyd gyntaf:
24 Mawrth 2020

Diweddarwyd ddiwethaf:
9 Medi 2020

Cynnwys

A yw'r colegau ar agor yr hydref hwn?

Pam mae'r trefniadau yn wahanol i ddysgwyr llawn-amser a rhan-amser?

A fydd rhaid imi wisgo gorchudd wyneb neu gyfarpar diogelu personol yn y coleg?

A fyddaf yn dal i wneud rhywfaint o fy nysgu ar lein?

Beth os ydw i am barhau i ddysgu gartref, ac nad ydw i'n teimlo'n ddiogel yn mynd yn ôl i'r coleg o gwbl?

Dw i i fod i fynd ar leoliad gwaith fel rhan o'm cwrs. A fydd hynny yn dal i ddigwydd?

Beth fydd yn digwydd os bydd cynnydd yn y nifer sy'n cael eu heintio gan COVID-19? A fydd y colegau yn cau unwaith eto?

A yw bysiau colegau yn rhedeg?

Oes modd i mi ddefnyddio trafndiaeth gyhoeddus i fynd i'r coleg?

Oes rhaid i mi wisgo gorchudd wyneb wrth deithio i'r coleg?

Beth y mae colegau a darparwyr hyfforddiant yn ei wneud i sicrhau ei bod yn ddiogel i ddychwelyd?

Roedd gennyf lythyr gwarchod ac rwyf wedi fy niffinio fel person "eithriadol o agored i niwed". A ddylwn ddychwelyd i'r coleg?

Rwy'n byw gyda rhywun a oedd yn gwarchod eu hunain, a ddylwn ddychwelyd i'r coleg?

Rwy'n pryderu ynghylch a yw'n ddiogel i mi fynd i'r coleg, beth y dylwn i ei wneud?

Beth allaf ei wneud i gadw'n ddiogel pan fyddaf yn y coleg, wrth deithio a phan fyddaf yn dychwelyd gartref?

A fydd taliadau'r Lwfans Cynhaliath Addysg neu Grant Dysgu Llywodraeth Cymru yn parhau?

Pa gymorth fydd ar gael i ddysgwyr nad oes ganddynt fynediad at gyfrifiaduron gartref?

PERTHNASOL

Cymorth i'r rheini sy'n hyfforddi

- Dysgu seiliedig ar waith a phrentisiaethau: coronafeirws**

Ysgolion: coronafeirws

- School opening times and services: coronavirus**

- Health and well-being for school staff, childcare providers and learners: coronavirus**

- Proffion ac asesiadau: coronafeirws**

- Staff ysgolion a'u cyflogaeth: coronafeirws**

A yw'r colegau ar agor yr hydref hwn?

Byddant. Bydd modd i golegau agor, ond mae'n debygol y bydd pethau'n gweithio'n wahanol am ychydig. Er mwyn cadw dysgwyr a staff yn ddiogel, bydd colegau yn cynllunio i gadw'r lefel cyswllt mor isel â phosibl. I ddysgwyr llawn-amser, bydd hyn yn golygu aros mewn "grwpiau cyswllt" a pheidio â chymysgu â grwpiau mwy.

I ddysgwyr rhan-amser a dysgwyr sy'n oedolion, mae hyn yn debygol o olygu cadw pellter cymdeithasol o ddwy fetr ar y campws. Cysylltwch â'ch coleg i gael rhagor o fanylion ynghylch beth y bydd hyn yn ei olygu i chi ac o ran eich cwrs.

Pam mae'r trefniadau yn wahanol i ddysgwyr llawn-amser a rhan-amser?

Yn aml, mae gan ddysgwyr rhan-amser a dysgwyr sy'n oedolion swyddi, gan gynnwys prentisiaid sy'n mynychu'r coleg fel rhan o'u hyfforddiant. Maen nhw'n dod i gysylltiad, felly, â mwy o bobl ac mae hyn yn cynyddu'r risg o drosglwyddo COVID-19.

I helpu'r colegau i reoli'r risg hon, rydyn wedi gofyn iddynt osod rheolaethau ychwanegol mewn perthynas â'r grwpiau hyn o ddysgwyr.

A fydd rhaid imi wisgo gorchudd wyneb neu gyfarpar diogelu personol yn y coleg?

Bydd eich coleg yn cynnal asesiad risg i benderfynu a oes angen i chi ddefnyddio gorchudd wyneb mewn mannau fel corridorau, lle nad oes modd i chi o bosibl gadw pellter wrth bobl eraill.

Efallai y bydd eich coleg hefyd yn ei gwneud yn ofynnol ichi wisgo cyfarpar diogelu personol mewn rhai achosion, er enghraifft os ydych yn dilyn cwrs lle rydych yn dod i gysylltiad â phobl eraill. Gallwch ddewis wisgo gorchudd wyneb drwy'r amser yn y coleg, os yw'n well gennych wneud.

Gall eich coleg roi rhagor o wybodaeth i chi am pryd a ble y dylid gwisgo gorchuddion wyneb neu gyfarpar diogelu personol arall.

Gallwch weld rhagor o wybodaeth ar ein [tudalen gorchuddion wyneb](#).

A fyddaf yn dal i wneud rhywfaint o fy nysgu ar lein?

Byddwch, mewn sawl achos bydd eich coleg neu eich darparwr dysgu yn gofyn ichi wneud rhywfaint o ddysgu ar lein ochr yn ochr â'ch sesiynau dysgu yn y coleg. Bydd hyn yn cwtogi ar yr amser y mae angen ichi ei dreulio yn y coleg, gan helpu i'ch diogelu.

Beth os ydw i am barhau i ddysgu gartref, ac nad ydw i'n teimlo'n ddiogel yn mynd yn ôl i'r coleg o gwbl?

Cysylltwch â'ch coleg neu eich darparwr dysgu i drafod eich pryderon a'r hyn sy'n bosibl o ran eich cwrs chi.

Dw i i fod i fynd ar leoliad gwaith fel rhan o'm cwrs. A fydd hynny yn dal i ddigwydd?

Bydd hyn yn dibynnu ar yr asesiad risg a wneir gan eich coleg neu eich darparwr dysgu. Efallai y bydd modd ichi gwblhau eich cyfnod lleoliad gwaith os bydd eich coleg yn fodlon bod y gwaith yn ddiogel ichi, ac os bydd modd ichi gadw pellter o ddwy fetr yn y gwaith a'r coleg.

Cysylltwch â'ch coleg os oes gennych gwestiynau am hyn.

Beth fydd yn digwydd os bydd cynnydd yn y nifer sy'n cael eu heintio gan COVID-19? A fydd y colegau yn cau unwaith eto?

Byddwn yn monitro'r sefyllfa yn ofalus, ac mae'n bosibl y byddi yn rhaid cau colegau am gyfnod, os bydd y cyfraddau heintio yn codi eto. Mae pob coleg yn cynllunio ar gyfer hyn, er mwyn sicrhau bod y broses ddysgu yn gallu parhau yn ystod unrhyw gyfnod clo pellach.

A yw bysiau colegau yn rhedeg?

Cysylltwch â'ch coleg i weld pa drefniadau sydd ar waith yn eich ardal.

Oes modd i mi ddefnyddio trafndiaeth gyhoeddus i fynd i'r coleg?

Oes, ond dim ond os nad oes unrhyw opsiwn arall. Ar hyn o bryd mae gwasanaethau trenau a bysiau yn dilyn amserlen gyfyngedig, ac mae llai o gapasiti yn sgil y rheolau ar gadw pellter cymdeithasol, felly cadwch hyn mewn cof wrth gynllunio eich taith.

Ystyriwch gerdded neu feicio os yw hynny'n bosibl, er mwyn ein helpu i gadw'r gofod cyfyngedig sydd ar gael ar drafndiaeth gyhoeddus i weithwyr allweddol sydd angen teithio i ac o'r gwaith.

Os mai trafndiaeth gyhoeddus yw'r unig opsiwn sydd ar gael, gwnewch yn siŵr eich bod yn dilyn y canllawiau isod i'ch diogel chi, eich cyd-deithwyr a'n staff gymaint â phosibl:

- cadwch 2 fetr ar wahân i bobl nad ydynt yn rhan o'ch aelwyd lle bynnag y bo'n bosibl
- ceisiwch osgoi unrhyw gysylltiad corfforol, a threulio cyn lleied o amser â phosibl o fewn 2 fetr i eraill
- trough eich wyneb i ffwrdd oddi wrth bobl nad ydynt yn rhan o'ch aelwyd
- ceisiwch osgoi cyffwrdd unrhyw arwynebedd os oes modd
- ceisiwch osgoi bwyta ar y bws neu drên os oes modd
- golchwch eich dwylo'n drylwyr neu defnyddiwch hylif diheintio dwylo cyn ac ar ôl teithio

Oes rhaid i mi wisgo gorchudd wyneb wrth deithio i'r coleg?

Rhaid i chi wisgo gorchudd wyneb wrth deithio ar drafndiaeth gyhoeddus yng Nghymru. I gael rhagor o wybodaeth, gweler ein [canllawiau ar drafndiaeth gyhoeddus](#).

Os ydych yn defnyddio cludiant penodol i'r coleg, neu gludiant sydd wedi'i rannu rhwng eich coleg ac ysgolion, mae gan rai ardaloedd a rhai cwmnïau bysiau bolisiau bod yn rhaid i bob teithiwr ddefnyddio gorchudd wyneb. Dylech gysylltu â'ch coleg i wario hyn.

Beth y mae colegau a darparwyr hyfforddiant yn ei wneud i sicrhau ei bod yn ddiogel i ddychwelyd?

Mae'n rhaid i bob coleg a darparwr hyfforddiant gwblhau asesiadau risg manwl a phrosesuau cynllunio trylwyr cyn gwahodd dysgwyr a staff i ddychwelyd.

Mae hyn yn cynnwys edrych ar eu hadeiladau i wneud yn siŵr eu bod yn gallu dilyn y gofynion o ran cadw pellter cymdeithasol

- rhoi canllawiau yn eu lle i staff a dysgwyr
- cynllunio amserlenni er mwyn gallu rheoli nifer y bobl sy'n cyfranogi
- a chynyddu eu trefniadau glanhau a dheintio

Os oes gennych gwestiynau penodol, cysylltwch â'ch coleg neu ddarparwr hyfforddiant a fydd yn gallu rhoi gwybodaeth i chi am eu trefniadau.

Roedd gennyf lythyr gwarchod ac rwyf wedi fy niffinio fel person "eithriadol o agored i niwed". A ddylwn ddychwelyd i'r coleg?

Daeth y cyfnod gwarchod i ben dros dro yn mis Awst. Golyga hyn y gallwch ddychwelyd i'r coleg.

Os oes gennych bryderon am hyn, siaradwch â'ch coleg i gael gwybod pa gefnogaeth sydd ar gael ichi. Gallwch hefyd gysylltu â'ch meddyg teulu i gael cyngor ar sut i gadw'n ddiogel.

Rwy'n byw gyda rhywun a oedd yn gwarchod eu hunain, a ddylwn ddychwelyd i'r coleg?

Gallwch ddychwelyd i'r coleg, ond os oes gennych bryderon am y risgiau o wneud hynny, siaradwch â'ch coleg neu ddarparwr hyfforddiant am eich sefyllfa.

Rwy'n pryderu ynghylch a yw'n ddiogel i mi fynd i'r coleg, beth y dylwn i ei wneud?

Siaradwch â'ch coleg neu ddarparwr hyfforddiant yn y lle cyntaf; byddant yn gallu trafod eich pryderon a dweud wrthyh pa fesurau sydd yn eu lle i reoli'r risgiau'n ymwneud â Covid-19.

Os nad ydych yn teimlo'n gyfforddus i ddychwelyd ar hyn o bryd, yn dibynnu ar eich cwrs, mae'n bosibl y bydd eich coleg neu eich darparwr hyfforddiant yn gallu gwneud trefniadau ichi ddysgu o gartref.

Beth allaf ei wneud i gadw'n ddiogel pan fyddaf yn y coleg, wrth deithio a phan fyddaf yn dychwelyd gartref?

Mae nifer o bethau y gallwch eu gwneud i'ch cadw eich hun ac eraill yn ddiogel:

- Gofalwch eich bod yn cadw eich pellter, gan gynnwys mewn lleoedd fel neuaddau, ffreuturiau, mynedfeydd ac allanfeydd a hefyd yn eich ystafell ddosbarth neu weithdy. Os bydd eich coleg yn dweud wrthyh am aros o fewn grŵp cyswllt penodol o ddysgwyr sy'n astudio'r un math o gwrs, gwnewch yn siŵr eich bod yn gwneud hynny
- Ystyriwch sut rydych yn teithio i'r coleg neu ganolfan hyfforddiant a cheiswch osgoi trafndiaeth gyhoeddus os yn bosibl
- Golchwch eich dwylo'n rheolaidd ac yn drylwyr drwy gydol y dydd a phan fyddwch yn dychwelyd gartref
- Os ydych yn gweld dysgwr arall nad yw'n dilyn y canllawiau ar gadw pellter cymdeithasol, rhowch wybod i aelod o staff yn y coleg neu'r ganolfan hyfforddiant
- Os ydych yn teimlo'n sâl, rhowch wybod i'r coleg neu'r darparwr hyfforddiant ar unwaith, ewch gartref, ac arhoswch yno am saith diwrnod. Dyma brif symptomau COVID-19:

- tymheredd uchel – mae hyn yn golygu eich bod yn teimlo'n boeth ar eich brest neu eich cafn (nid oes angen i chi fesur eich tymheredd)
- peswch parhaus newydd – mae hyn yn golygu peswch llawer am fwy nag awr, neu 3 neu fwy o byliau o beswch mewn 24 awr (os oes gennych beswch fel arfer, gallai fod yn waeth nag arfer)
- colli neu newid i'ch gallu i aroglu neu flasau – mae hyn yn golygu eich bod wedi sylwi nad ydych yn gallu aroglu neu flasau unrhyw beth, neu bod pethau'n arogl neu'n blasu'n wahanol

A fydd taliadau'r Lwfans Cynhaliath Addysg neu Grant Dysgu Llywodraeth Cymru yn parhau?

Caniateir i golegau barhau â taliadau'r lwfans cynhaliath addysg a Grant Dysgu Llywodraeth Cymru yn ystod y pandemig Covid-19, yn ôl disgrisiwn. Gellir trin salwch, hunanynysu neu gau coleg fel absenoldeb wedi'i awdurdodi. Cysylltwch â'ch coleg i gael rhagor o wybodaeth.

Gall myfyrwr wneud cais am lwfans cynhaliath addysg ar gyfer blwyddyn academaidd 2020/21. Y dyddiad cau yw 31 Awst 2021, ond cofiwch y gallai gymryd mwy o amser nag arfer i brosesu ceisiadau. Gellir lawrlwytho ceisiadau o [cyllidmyfyrwrcymru.co.uk/ab/lca](#) neu cysylltwch â'ch coleg i ofyn am ffurflen gais.

Cofiwch mai dim ond ar gyfer tymor ysgolion a cholegau mae taliadau'r lwfans ar gael. Mae'r lwfans yn cael ei dalu bob yn ail wythnos.

Rhaid i geisiadau am Grant Dysgu Llywodraeth Cymru (Addysg Bellach) ar gyfer blwyddyn academaidd 2020/21 ddog i law Cyllid Myfyrwr Cymru o fewn 9 mis i ddechrau eich cwrs. Gellir lawrlwytho ceisiadau o [cyllidmyfyrwrcymru.co.uk/ab/gdlc-ab](#) neu cysylltwch â'ch coleg i ofyn am ffurflen gais.

Caiff taliadau Grant Dysgu Llywodraeth Cymru (Addysg Bellach) eu talu bob tymor.

Pa gymorth fydd ar gael i ddysgwyr nad oes ganddynt fynediad at gyfrifiaduron gartref?

Mae colegau a darparwyr dysgu unigol yn cymryd camau i helpu i sicrhau bod dysgwyr yn gallu manteisio ar e-ddysgu, er enghraifft drwy roi benthgyluniaduron i ddysgwyr nad oes ganddynt gyfleusterau yn y cartref. Dylai dysgwyr allu cael mwy o wybodaeth gan eu darparwr dysgu.

Rydym wedi darparu rhywfaint o gyllid i golegau a darparwyr dysgu eraill i brynu glianiaduron ac eitemau cyfarpar eraill er mwyn helpu dysgwyr nad oes ganddynt rai eu hunain.

Cyhoeddwyd gyntaf

24 Mawrth 2020

Rhan o

[Addysg bellach ac uwch: coronafeirws](#)

[Cyllid i fyfyrwr](#)

[Ysgolion: coronafeirws](#)

[Adrodd am unrhyw beth sy'n bod gyda'r dudalen hon](#)

[Nôl i dop y dudalen](#)

Cysylltu â ni Hygyrchedd Datganiad hawffraint Cwciw Prefatwydd Telerau ac amodau